



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Adroddiad ar ymchwiliad i fethiant i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag adran 73 ac adran 74 Mesur y
Gymraeg (Cymru) 2011

Cynhaliwyd yr ymchwiliad i fethiant i gydymffurfio â safonau a bennir gan
Weinidogion Cymru yn unol ag adran 71 ac Atodlen 10 Mesur y Gymraeg
(Cymru) 2011

Cyngor Dinas a Sir Abertawe

Rhif achos: CSG470



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn trwy ddwyn sylw at y ffaith fod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, trwy osod safonau ar sefydliadau, a thrwy reoleiddio cydymffurfiaeth â Mesur y Gymraeg. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru;
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Manylion cyswllt

- Ffôn: 0345 6033 221
 - E-bost: post@comisiynyddygyymraeg.cymru
 - Gwefan: comisiynyddygyymraeg.cymru
 - Post: Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT
-



Cyd-destun deddfwriaethol

Rhan 4 Mesur y Gymraeg

- Mae Rhan 4 Mesur y Gymraeg yn gosod fframwaith cyfreithiol er mwyn gosod dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Gelwir sefydliadau sy'n ddarostyngedig i safonau yn 'bersonau perthnasol'. Ceir safonau yn y meysydd canlynol:

 - cyflenwi gwasanaethau;
 - llunio polisi;
 - gweithredu;
 - hybu;
 - cadw cofnodion.
- Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau'n golygu bod rhaid i bersonau perthnasol beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylent hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.
- Mae hysbysiadau cydymffurfio a roddir i bersonau perthnasol gan y Comisiynydd dan Ran 4 Mesur y Gymraeg yn pennu'r safonau penodol y mae'n ofynnol cydymffurfio â hwy, ynghyd â'r diwrnodau oddi ar bryd y mae'n ofynnol cydymffurfio â'r safonau hynny neu gydymffurfio â'r safonau hynny mewn modd penodol ('diwrnodau gosod'). Bydd copïau ar wefan y Comisiynydd o'r hysbysiadau cydymffurfio sydd mewn grym.
- Tra bydd hysbysiad cydymffurfio sy'n benodol i berson perthnasol mewn grym, bydd yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r safonau a bennwyd ynddo.

Rhan 5 Mesur y Gymraeg

- v. Mae Rhan 5 Mesur y Gymraeg yn rhoi swyddogaethau rheoleiddiol statudol i'r Comisiynydd er mwyn sicrhau bod personau perthnasol yn cydymffurfio â'u dyletswyddau. Gall dyletswyddau gynnwys cydymffurfio â safonau'r Gymraeg (fel y nodir uchod), ac hefyd ofyniadau a osodir ar bersonau gan y Comisiynydd yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg yn sgil methiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol. Mae Polisi Gorfodi'r Comisiynydd yn rhoi cyngor a gwybodaeth ynghylch sut y bydd y Comisiynydd yn arfer y swyddogaethau rheoleiddiol hynny.
- vi. Y swyddogaethau rheoleiddiol sy'n deillio o Ran 5 Mesur y Gymraeg yw:
- ystyried ai i ymchwilio ai peidio os gwneir cwynion ynghylch ymddygiad personau perthnasol;
 - ymchwilio i amheuon o fethiant gan bersonau perthnasol i gydymffurfio â dyletswyddau, dyfarnu ar ymchwiliadau a llunio adroddiadau ar ymchwiliadau;
 - ystyried a ai i weithredu ymhellach (drwy roi argymhellion neu gyngor) ai peidio os yw ymchwiliad yn canfod na fu methiant i gydymffurfio;
 - cymryd un o'r tri cham isod os yw ymchwiliad yn canfod y bu methiant i gydymffurfio:
 - peidio â gweithredu ymhellach;
 - gwneud un neu fwy o'r pethau a ganlyn:
 - ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol baratoi cynllun gweithredu at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd;
 - ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol gymryd camau at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd;
 - rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant y person perthnasol i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol;
 - ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol;
 - gosod cosb sifil ar y person perthnasol.
 - gwneud un neu fwy o'r pethau a ganlyn:
 - rhoi argymhellion i'r person perthnasol neu i unrhyw berson arall;
 - rhoi cyngor i'r person perthnasol neu i unrhyw berson arall;
 - ceisio ymrwymo mewn cytundeb setlo gyda'r person perthnasol.
 - gwneud ceisiadau i lys sirol am orchmynion llys i orfodi cydymffurfiaeth;
 - cydymffurfio â dyletswyddau sy'n deillio o apelau i Dribiwnlys y Gymraeg a cheisiadau am adolygiadau gan y Tribiwnlys;
 - llunio dogfen polisi gorfodi;
 - creu a chynnal cofrestr camau gorfodi.
- vii. Bydd y Comisiynydd yn dilyn y prosesau statudol gofynnol wrth arfer ei swyddogaethau rheoleiddiol.
- viii. Mae Polisi Gorfodi'r Comisiynydd yn cynnwys gwybodaeth lawn ynghylch y ffordd y bydd y Comisiynydd yn arfer ei swyddogaethau rheoleiddiol dan Ran 5 Mesur y Gymraeg.
-

Cynnwys

1	Y Gŵyn	1
2	Aseiad, Canfyddiad a Dyfarniad	3
3	Hysbysiad Penderfynu	
	Atodiadau: A: Cylch Gorchwyl	
	B: Hysbysiad Tystiolaeth	

1 Y Gŵyn

Amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg

- 1.1 Derbyniwyd dwy gŵyn gan aelod o'r cyhoedd ynghylch materion yn ymwneud â chynnig Cyngor Dinas a Sir Abertawe (y Cyngor) i gau Ysgol Gynradd Gymraeg Felindre (YGG Felindre). Derbyniwyd y gŵyn gyntaf ar 6 Rhagfyr 2018. Mae'n yn ymwneud â'r modd y cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad ar y cynnig i gau'r ysgol. Derbyniwyd yr ail gŵyn ar 7 Ionawr 2019. Mae'n ymwneud â diffygion honedig yn y modd yr aseswyd effaith y penderfyniad ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 1.2 Mae'r achwynydd yn honni:
 - na wnaeth y Cyngor gynnal ymgynghoriad priodol am nad oedd y dogfennau ymgynghori yn ystyried nac yn ceisio barn ynghylch sut y byddai'r penderfyniad yr ymgynghorwyd arno'n effeithio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
 - fod y Cyngor wedi methu ag ymateb yn briodol i sylwadau a gyflwynwyd am y modd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad.
 - fod dogfennau'r ymgynghoriad yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg gan fod y gofod a roddwyd ar gyfer cynnwys ymateb i rai cwestiynau yn llai yn y fersiynau Cymraeg o'u cymharu â'r fersiynau Saesneg.
 - na chyhoeddwyd yr asesiad ar addysg Gymraeg ar dudalennau Cymraeg y gwefan y Cyngor yn ystod y broses ymgynghori.
 - Na wnaeth y Cyngor gynnal asesiad priodol o effaith y penderfyniad i gau'r ysgol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yng nghymuned yr ysgol, ac nad yw'r asesiad o'r effaith ar addysg Gymraeg yn cwrdd gofynion safonau'r Gymraeg sydd wedi eu gosod ar y Cyngor wrth iddynt lunio, adolygu neu addasu polisi.
- 1.3 Ar 21 Mehefin 2018 cymeradwyodd Gabinet y Cyngor argymhelliad i ymgynghori ar y cynnig arfaethedig i gau YGG Felindre.
- 1.4 Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynnig rhwng Medi a Hydref 2018.
- 1.5 Roedd yr ymgynghoriad yn ymwneud â'r cynnig i gau YGG Felindre (yn weithredol o 31 Awst 2019). Cynigir bod y dalgylch ysgol presennol yn cael ei drosglwyddo i Ysgol Gynradd Gymraeg Tirdeunaw fel yr ysgol agosaf nesaf, oni bai bod cynnig ar wahân i adleoli Ysgol Gynradd Gymraeg Tan-y-lan i leoliad newydd yn cael ei gymeradwyo, ac os felly honno fyddai'r ysgol agosaf fyddai'n derbyn y disgyblion o ddalgylch YGG Felindre.
- 1.6 Ar 20 Rhagfyr 2018 cymeradwyodd Cabinet y Cyngor argymhelliad i gyhoeddi hysbysiad statudol ynghylch y bwriad i gau YGG Felindre.
- 1.7 Ar sail ystyried yr uchod â'r safonau gosodedig (Atodiad A), yr oeddwn o'r farn bod y cynnig a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori yn debygol o gael effaith ar y Gymraeg. Roedd yma hefyd amheuaeth nad oedd asesiad priodol wedi ei gynnal ar effaith posib y cynigion ar y Gymraeg. Penderfynais felly gynnal ymchwiliad dan

adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn dyfarnu â fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg.

- 1.8 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i sicrhau a bodloni ei hun bod unrhyw benderfyniadau polisi a wneir ganddo (ynghyd â'r broses o'u llunio ac unrhyw ymgynghoriadau arnynt) yn cydymffurfio ag unrhyw reoliadau neu ddeddfau sy'n berthnasol.
- 1.9 Bwriad fy ymchwiliad yn yr achos hwn yw dod i benderfyniad ynglŷn â p'un a yw'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safonau'r Gymraeg wrth gyrraedd ei benderfyniad. Ble mae penderfyniad polisi eisoes wedi ei wneud, nid yw'n agored i mi ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor ail wneud y penderfyniad hwnnw. Felly, mae'r camau yr wyf yn gofyn i'r Cyngor eu cymryd yn berthnasol i benderfyniadau a wneir yn y dyfodol yn unig, mewn perthynas â'r broses o ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar y Gymraeg, ac ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau ar y Gymraeg wrth ymgynghori ar y penderfyniadau hynny.
- 1.10 Rhoddais hysbysiad o'r penderfyniad i ymchwilio, ac o'r cylch gorchwyl arfaethedig, i'r Cyngor a'r achwynydd ar 21 Ionawr 2019.
- 1.11 Rhoddais hysbysiad o gylch gorchwyl terfynol yr ymchwiliad ar 6 Chwefror 2019. Gellir gweld y cylch gorchwyl terfynol fel atodiad i'r adroddiad hwn.

Y dystiolaeth a ddaeth i law

- 1.12 Ar 6 Chwefror 2019, rhoddais hysbysiad tystiolaeth i'r Cyngor a oedd yn ei gwneud yn ofynnol iddo ateb cyfres o gwestiynau.
- 1.13 Mewn ymateb, derbyniais dystiolaeth gan y Cyngor ar 27 Chwefror 2019 drwy atodiad mewn e-bost. Darparwyd hefyd ddolen i'r dudalen ymgynghori ar wefan y Cyngor oedd yn cynnwys holl ddogfennau'r ymgynghoriad.
- 1.14 Ystyriais yr holl wybodaeth a gyflwynwyd gan y Cyngor a'r achwynydd. Gellir gweld yr Hysbysiad Tystiolaeth ynghyd ag ymateb y Cyngor yn Atodiadau B a C.

2 Aseiad, canfyddiadau a dyfarniad

Ystyried cydymffurfiaeth â safon 48

- 2.1 Roedd dogfennau'r ymgynghoriad wedi eu cyhoeddi fel rhan o becyn ymgynghori ar wefan y Cyngor. Roedd modd ymateb i'r ymgynghoriad drwy gwblhau ffurflen ryngweithiol ar-lein neu drwy gwblhau ffurflen copi caled. Roedd y ffurflen copi caled hefyd ar gael yn ystod sesiynau ymgynghori a gynhaliwyd gan y Cyngor.
- 2.2 Honnai'r achwynydd fod y ffurflen copi caled yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg gan fod y gofod a roddwyd ar gyfer cynnwys ymateb i rai cwestiynau yn llai yn y fersiynau Cymraeg o'u cymharu â'r fersiynau Saesneg.
- 2.3 Er mwyn gwirio a oedd honiadau'r achwynydd yn gywir, edrychais ar fersiwn Gymraeg a Saesneg y ffurflen copi caled. Wrth gymharu'r ddwy fersiwn sylwais ar y gwahaniaethau canlynol:

	Cymraeg	Saesneg
Cwestiwn 1	Dim blwch ar gyfer nodiadau yn dilyn yr opsiwn 'Arall (nodwch)'	Blwch wedi ei gynnwys i gynnwys nodiadau yn dilyn yr opsiwn "Other (please specify)".
Cwestiwn 4	Dwy linell a hanner gul i lunio ymateb	Blwch i lunio ymateb
Cwestiwn 6	Dwy linell a hanner gul i lunio ymateb	Blwch i lunio ymateb
Cwestiwn 7	Dwy linell a hanner gul i lunio ymateb	Blwch i lunio ymateb
Cwestiwn 8	Dwy linell a hanner gul i lunio ymateb	Blwch i lunio ymateb
Cwestiwn 10	Dwy linell a hanner gul i lunio ymateb	Blwch i lunio ymateb
Diwedd yr holiadur	Dim gwybodaeth am yr hyn fydd yn digwydd i'r ymatebion. Dim datganiad am ddeddf diogelu data.	Paragraff yn egluro beth fydd yn digwydd i'r dystiolaeth pan ddaw'r ymgynghoriad i ben a datganiad am ddeddf diogelu data.

- 2.4 Yn ei ymateb dywedodd y Cyngor ei fod wedi dod yn ymwybodol o'r broblem gyda maint y bylchau yn y ffurflen ymateb a'i fod wedi eu datrys ar unwaith. Dywed bod yr un broblem wedi ei darganfod gyda'r blychau Saesneg. O edrych ar y ffurflenni

oedd ar y dudalen ymgynghori ar wefan y Cyngor, gwelodd fy swyddogion fod y gwahaniaethau rhwng y fersiwn Gymraeg a'r Saesneg yn dal i'w gweld.

2.5 Mae geiriad safon 48 fel a ganlyn:

Os byddwch yn llunio dogfen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.

2.6 Mae Atodlen 1, Rhan 3, Paragraff 29 y rheoliadau yn nodi:

Pan fo safon yn cyfeirio at ddeunydd sydd i'w lunio yn Gymraeg (ac eithrio safonau 52 i 57 (gwefannau ac apiau), 58 a 59 (cyfryngau cymdeithasol) a 76 (gwahoddiad i dendro)), mae cyfeiriadau at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu at beidio â thrin fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg yn cynnwys, ymysg materion eraill, (ac yn ychwanegol at faterion penodol y cyfeirir atynt mewn unrhyw safon unigol), beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran—

- (a) *golwg y deunydd (er enghraifft mewn perthynas â lliw neu ffont unrhyw destun);*
- (b) *maint y deunydd;*
- (c) *lleoliad ac amlygrwydd y deunydd mewn unrhyw fan cyhoeddus;*
- (ch) *pryd a sut y caiff y deunydd ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos;*
- (d) *fformat cyhoeddi unrhyw ddeunydd.*

Gall y 'materion eraill' gynnwys peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran:

- trefn iaith y deunydd;
- safon ac ansawdd y deunydd;
- eglurder a chywirdeb y deunydd (er enghraifft o ran ystyr a mynegiant unrhyw destun); a
- chynnwys y deunydd (er enghraifft o ran manylder neu ansawdd y wybodaeth a gynhwysir yn y deunydd).

Canfyddiadau

2.7 Yn dilyn ystyried a chymharu'r ffurflenni ymateb, dof i'r casgliad bod y bylchau ar gyfer llunio ymateb ysgrifenedig yn y ffurflen copi caled yn llai yn y fersiwn Gymraeg na'r fersiwn Saesneg.

2.8 Nodaf nad yw'r gwahaniaeth ar yr olwg gyntaf yn ymddangos yn un sylweddol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i mi gasglu, pe bai unigolyn yn dymuno cwblhau'r ffurflen copi caled (yn hytrach nac un electronig), yna nid yw'r llinellau sydd wedi eu darparu ar y fersiwn Gymraeg yn cynnig llawer o le i geisio ysgrifennu ymateb llawer mwy nag un brawddeg o hyd. Yn sicr byddai'n rhwyddach ysgrifennu yn y blwch ar y fersiwn Saesneg sydd yn cynnig mwy o le i lunio ymateb.

2.9 Credaf bod y ffaith bod y bylchau i lunio ymateb yn y fersiwn Gymraeg yn llai na'r bylchau cyfatebol yn y fersiwn Saesneg, yn golygu bod unigolyn oedd yn dymuno ymateb i'r ymgynghoriad drwy ddefnyddio copi caled o'r ffurflen Gymraeg o dan anfantais.

Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â safon 48 ai peidio

2.10 Fy nyfarniad yw bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 48. Sail fy nyfarniad yw bod y Cyngor wedi trin fersiwn Gymraeg copi caled y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gau YGG Felindre yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg y ffurflen.

Gweithredu pellach

2.11 Mae adran 77 Mesur y Gymraeg yn caniatáu i mi weithredu ymhellach lle bu methiant.

2.12 Yn achos fy nyfarniad fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 48, byddaf yn gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant i gydymffurfio rhag parhau neu gael ei ailadrodd.

2.13 Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 48 – Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor adolygu ei drefniadau ar gyfer llunio dogfennau sy'n gwahodd ymateb i ymgynghoriad, gan weithredu ar ei ganfyddiadau, ble mae angen, i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Amserlen: O fewn 8 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Ystyried cydymffurfiaeth â safon 52

2.14 Wrth gyflwyno'r gŵyn i mi, mae'r achwynydd yn honni nad oedd yr asesiad effaith iaith Gymraeg wedi ei gynnwys ymysg y papurau ymgynghori oedd wedi eu cynnwys ar y fersiwn Gymraeg o'r dudalen ymgynghori ar wefan y Cyngor. Dywed yr achwynydd ei bod yn deall mai camgymeriad ydoedd, serch hynny mae hefyd yn nodi mai'r canlyniad oedd na roddwyd yr un wybodaeth gyflawn i'r cyhoedd oedd yn dymuno cyfrannu at yr ymgynghoriad trwy gyfrwng y Gymraeg.

2.15 Cyn cyflwyno'r gŵyn i mi, roedd yr achwynydd wedi gohebu â'r Cyngor yn ymateb i'r ymgynghoriad. Fel rhan o'r ymateb hwnnw tynnodd yr achwynydd sylw at y ffaith nad oedd yr asesiad effaith iaith Gymraeg i'w gweld ar y fersiwn Gymraeg o'r wefan. Derbyniodd ymateb gan y Cyngor. Mae'r achwynydd wedi dyfynnu ymateb y Cyngor fel rhan o'i chŵyn i mi. Yn yr ymateb mae'r Cyngor yn datgan y canlynol:

“Yn dilyn ymchwiliad i mewn i'r mater hwn gallwn gadarnhau fod copi Cymraeg o'r Asesiad Effaith Iaith Gymraeg wedi bod ar gael ar y wefan trwy gydol yr ymgynghoriad.”

Mewn ymateb i hyn mae'r achwynydd yn egluro nad oedd hyn yn cyd-fynd â'i phrofiad hi.

2.16 Yn ei ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth mae'r Cyngor yn ategu yr hyn a ddywed yn ei ymateb i'r achwynydd. Mae'n datgan:

“Cafodd yr Asesiad Effaith ar y Gymraeg ei gynnwys gyda'r dogfennau'r ymgynghoriad ar wefan y Cyngor. Roedd y ddogfen ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg drwy gydol yr ymgynghoriad.”

2.17 Cyflwynodd y Cyngor ddolen i'r dudalen ymgynghori ar ei wefan. Gwiriwyd y rhestr o ddogfennau oedd wedi eu cynnwys ar y dudalen ymgynghori gan fy swyddogion ar 15 Ionawr 2019 ac eto ar 7 Mawrth 2019. Roedd pob dogfen ar y fersiwn Gymraeg yn cyfateb â'r un Saesneg ac nid oedd yn ymddangos bod unrhyw ddogfen ar goll ar y fersiwn Gymraeg.

2.18 Yn ei ymateb, mae'r Cyngor wedi ceisio cynnig esboniad pam nad oedd yr achwynydd wedi gallu gweld yr Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg ar y dudalen Gymraeg. Dywed:

“Yr unig esboniad sydd i'w gael am anallu'r achwynydd i gyrchu'r ddogfen yw ei fod o bosib wedi cyrchu'r gwe-dudalennau cyn i'r ymgynghoriad ddechrau, wrth i'r dogfennau gael eu lanlwytho i'r wefan. Byddai'r cyfnod hwn wedi bod yn fyr iawn, ar tu allan i'r cyfnod ymgynghoriad ffurfiol.

Pe bai hyn wedi digwydd, mae'n bosib y byddai cyfrifiadur yr unigolyn wedi storio'r we-dudalen a byddai angen ei hail-lwytho i weld unrhyw wybodaeth ychwanegol ar y dudalen honno.

Sylwer nad ydym yn honni mai dyma beth ddigwyddodd, ond dyma'r unig esboniad sydd gennym am pam nad oedd yr achwynydd yn gallu cyrchu'r holl ddogfennau.

Mae hefyd yn werth nodi nad oes unrhyw un arall wedi crybwyll y broblem hon”.

2.19 Wrth gyflwyno'r gŵyn i mi, nid yw'r achwynydd wedi datgan pa bryd yn union y gwnaeth geisio dod o hyd i'r asesiad effaith, ond gellir casglu bod hyn wedi digwydd cyn i'r achwynydd ymateb i'r ymgynghoriad ar 17 Hydref 2018.

2.20 Mae geiriad safon 52 fel a ganlyn:

Rhaid i chi sicrhau-

- (a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg,
- (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac
- (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan.

2.21 Mae Atodlen 1, Rhan 3, Paragraff 36 y rheoliadau yn nodi:

At ddiben safonau 52 i 57 (gwefannau ac apiau) a safonau 58 a 59 (cyfryngau cymdeithasol), mae cyfeiriadau at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn cynnwys, ymysg materion eraill (ac yn ychwanegol at faterion penodol y cyfeirir atynt mewn unrhyw safon unigol), beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran-

- (a) Golwg y deunydd (er enghraifft, mewn perthynas â lliw, maint, ffont a fformat unrhyw destun), neu
- (b) Pan gyhoeddir deunydd ar y wefan, yr ap neu'r cyfryngau cymdeithasol;

ond nid yw'n golygu bod rhaid i'r deunydd Cymraeg ymddangos ar yr un dudalen â deunydd Saesneg, nac ar dudalen y mae person yn debygol o ddod o hyd iddi cyn y dudalen Saesneg wrth chwilio.

2.22 Rwy'n dehongli'r safon felly i olygu bod yn rhaid i gorff sicrhau bod tudalennau ei wefannau a'i wasanaethau ar-lein ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau a'r gwasanaethau hynny.

2.23 Yn dilyn ymgynghori ar adroddiad arfaethedig yr ymchwiliad, derbyniais sylwadau a gwybodaeth pellach gan yr achwynydd. Roedd y wybodaeth yn cynnwys e-bost anfonodd yr achwynydd at swyddog o'r Cyngor oedd yn nodi'r materion yr oedd gŵr yr achwynydd wedi ei godi dros y ffôn gyda'r swyddog, ddiwrnod cyn i'r ymgynghoriad ddod i ben. Roedd un rhan o'r e-bost yn dweud

“Nid oedd (ac nid yw) yr asesiad addysg Gymraeg wedi ei gynnwys ymysg y papurau yr oedd modd eu cyrchu o fersiwn Cymraeg gwefan yr ymgynghoriad. Deallwn fod hyn yn gamgymeriad, ond mae'n fwy nag anffodus gan na roddwyd yr un wybodaeth gyflawn i rai (fel ni) oedd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg er mwyn ymateb i'r Ymgynghoriad.”

Roedd yr achwynydd o'r farn fod yr e-bost yn arwyddocaol oherwydd ei fod yn dangos bod swyddog y Cyngor wedi dweud wrth ei gŵr mai camgymeriad oedd hepgor yr asesiad iaith oddi ar fersiwn Cymraeg gwefan yr ymgynghoriad.

- 2.24 Gofynnais i'r Cyngor ddarparu ymateb i hyn, ac i ddarparu i mi unrhyw gofnod oedd ganddynt o'r sgwrs ffôn yma, neu unrhyw ohebiaeth fewnol oedd yn ymwneud ag ef. Gofynnais hefyd i'r Cyngor ddarparu unrhyw ddata meta sy'n bodoli ynghylch cyhoeddi fersiwn Gymraeg yr asesiad effaith iaith ar wefan y Cyngor yn ystod y cyfnod ymgynghori.
- 2.25 Mewn ymateb, cadarnhaodd y Cyngor fod swyddog o'r Cyngor wedi derbyn galwad ffôn gan ŵr yr achwynydd ac e-bost gan yr achwynydd oedd yn nodi, ym marn yr achwynydd, yr hyn a gafodd ei drafod mewn sgwrs gyda'i gŵr. Noda'r Cyngor ei fod yn "anghytuno'n gryf gyda honiadau'r achwynydd fod yr hyn ddywedwyd wrth ei gŵr yn wahanol i'r dystiolaeth sydd wedi ei gyflwyno gan y Cyngor i'r ymchwiliad".
- 2.26 Dywedodd y Cyngor hefyd nad oes ganddo gofnod o'r sgwrs ffôn ac mai trafodaethau mewnol ar lafar a gafwyd am y mater. Yn ogystal, dywedodd nad yw system rheoli gwefan y Cyngor yn cadw data meta ynglŷn â phob newid a wneir dudalennau'r wefan, ac mai dim ond data am y newidiadau mwyaf diweddar a gedwir.

Canfyddiadau

- 2.27 Yn dilyn ystyried yr holl dystiolaeth sydd wrth law, mae'n amlwg bod gwrthdaro yn yr hyn y mae'r achwynydd yn honni a'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y Cyngor.
- 2.28 Er hynny, mae'n rhaid i mi ddyfarnu a gydymffurfiodd y Cyngor â'r safon ai peidio. Yn absenoldeb tystiolaeth digamsyniol sy'n profi nad oedd copi Cymraeg o'r Asesiad Effaith Iaith Gymraeg wedi bod ar gael ar y wefan trwy gydol yr ymgynghoriad, yr unig gasgliad y gallaf ddod iddo yw nad yw'r Cyngor wedi methu cydymffurfio â'r safon.

Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â safon 52 ai peidio

- 2.29 Fy nyfarniad yw nad yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 52 yn yr achos hwn.

Ystyried cydymffurfiaeth â safonau 88, 89 a 90

- 2.30 Mae'r safonau llunio polisi yn ymwneud â'r ffordd y mae corff yn ystyried effeithiau ei benderfyniadau polisi ar y Gymraeg.
- 2.31 Yr wyf eisoes wedi datgan nad yw'n fwriad gennyf i fynegi barn ar y penderfyniad a wnaed gan y Cyngor i gau YGG Felindre. Rwy'n llwyr gydnabod bod dyletswydd ar awdurdodau lleol i adolygu eu darpariaeth addysgol yn unol â chanllawiau a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'n ddyletswydd arnaf i ystyried a dod i ddyfarniad ynglŷn â chydymffurfiaeth y Cyngor â safonau 88, 89 a 90 wrth iddynt wneud y penderfyniad i gau YGG Felindre.
- 2.32 Mae safonau 88, 89 a 90 yn ei gwneud yn ofynnol ar y Cyngor i ystyried pa effeithiau, os o gwbl, y byddai penderfyniad polisi yn eu cael ar y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, pa un ai yw'r rheiny'n effeithiau positif neu'n andwyol.

- 2.33 Golygai hyn bod angen i'r Cyngor ystyried a nodi'r holl effeithiau perthnasol y gall penderfyniad polisi eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 2.34 Mae'r rhestr isod yn cynnig rhai ffactorau y credaf y gallai'r Cyngor fod wedi eu hystyried wrth asesu effaith y cynnig i gau YGG Felindre er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn un priodol ac ystyrlon.
- A fydd yn cynnig yn cael effaith ar nifer neu'r ganran o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg (neu unrhyw sgil arall)?
 - A fydd yn cynnig yn cael effaith ar nifer neu'r ganran o bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg?
 - A fydd y cynnig yn gwarchod, yn hybu ac yn cyfoethogi treftadaeth a diwylliant yr ardal dan sylw mewn perthynas â'r Gymraeg?
- 2.35 Gallai asesiad o effaith ieithyddol hefyd gynnwys y canlynol er mwyn rhoi sylw priodol i ofynion y safonau:
- Nodi unrhyw effeithiau positif ar y Gymraeg;
 - Nodi unrhyw effeithiau andwyol ar y Gymraeg;
 - Ystyried sut y gallai'r polisi neu'r ymarfer hyrwyddo'r cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yn ehangach;
 - Ystyried a fydd y polisi yn effeithio ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- 2.36 Ar ôl ystyried yr holl effeithiau mae'n ofynnol rhoi ystyriaeth ddyledus i ganlyniadau effaith o'r fath. Mae safon 89 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff ystyried sut y gellir llunio polisi (neu newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif ar y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae safon 90 yn ei gwneud yn ofynnol ar y Cyngor ystyried sut y gellir llunio polisi (neu newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 2.37 Golygai hyn bod yn rhaid i'r Cyngor ystyried unrhyw opsiynau i liniaru neu atal effeithiau andwyol y gall y penderfyniad polisi ei gael ar yr iaith Gymraeg. Rhaid hefyd ystyried yr opsiynau o ran sut i sicrhau effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif ar y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 2.38 Yn ei dystiolaeth i'r ymchwiliad, mae'r Cyngor yn tynnu sylw at bum dogfen sy'n berthnasol i'r ymchwiliad hwn.
- (i) *Adroddiad yr Aelod Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau*
 - (ii) *Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg*
 - (iii) *Ymgynghoriad ar y Cynnig i Gau Ysgol Gynradd Gymraeg Felindre ar 31 Awst 2019*
 - (iv) *Adroddiad Ymgynghori: Cynnig i Gau YGG Felindre*
 - (v) *Asesiad effaith cymunedol*
 - (vi) *Asesiad effaith cydraddoldeb*

Adroddiad yr Aelod Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau

- 2.39 Eglurodd y Cyngor fod yr argymhelliad i ymgynghori ar y cynnig arfaethedig i gau YGG Felindre wedi ei gyflwyno i gabinet y Cyngor yn yr adroddiad hwn ar 21 Mehefin 2018. Roedd yr adroddiad yn nodi fod y cynnig yn un rhan o weithredu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor.
- 2.40 Mae'r adroddiad yn trafod twf yn y nifer o blant sydd yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn y sir ac addaswydd yr ysgolion yng ngoleuni'r twf hwnnw.

There has been considerable growth in Welsh-medium provision and most schools are broadly appropriate in size to accommodate the nearest pupils (at present). However, there are pressures at a number of schools with constrained sites. The wider strategy for additional Welsh-medium places and a catchment review (subject to agreement and statutory consultation) will improve the balance of demand for and availability of places.

As at January 2018 there were 2,764 full-time primary-age pupils in Welsh-medium provision by comparison with total Welsh-medium primary places of 3,179 (an increase of 50 places since the Band B submission). Latest projections indicate that, even on the basis of current known pupil intakes, the total number of Welsh-medium full time pupils would be approaching 3,000 by September 2024. Allowing for a continuing general trend towards Welsh-medium provision and the inevitable uncertainty in relation to any projections based on current intakes it would be appropriate to plan for full-time pupil numbers of around 3,300. This would be consistent with the overall capacity required to meet the current level of reception numbers working through each primary year group and would allow the availability of places to get 'upstream' of trends in demand. This analysis has informed the projections within Swansea's WESP of 3,288, representing an increase of more than 3% each year.

- 2.41 Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried materion yn ymwneud â chydraddoldeb a goblygiadau ariannol a chyfreithiol y cynnig.
- 2.42 Nodaf fodd bynnag, tra bo'r adroddiad yn trafod effeithiau cadarnhaol y cynnig ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg o fewn y sir, nid oes tystiolaeth i'r Cyngor ystyried ac asesu effaith y cynnig ar y Gymraeg y tu hwnt i addysg.
- 2.43 Yn dilyn derbyn cymeradwyaeth y cabinet, deallaf i'r Cyngor ymgynghori ar y cynnig arfaethedig rhwng 5 Medi 2018 a 18 Hydref 2018.

Ymgynghoriad ar y cynnig i gau Ysgol Gynradd Felindre ar 31 Awst 2019

- 2.44 Roedd prif ddogfen yr ymgynghoriad yn gosod y cefndir a'r cyd-destun i'r cynnig, yn ogystal a chynnig eglurhad o'r newid a gynigir a'r achos a'r dadleuon o blaid gwneud hynny. Roedd y ddogfen yn trafod y ddarpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg ac effaith cadarnhaol posibl y cynnig. Roedd y ddogfen yn cynnwys dolen at yr *Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg a'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb*.

Adroddiad Ymgynghori: Cynnig i Gau YGG Felindre

2.45 Roedd yr adroddiad yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad, ac ymateb y Cyngor i'r materion a godwyd. Mae pwyntiau 40 i 49 yr adroddiad yn rhestru materion a godwyd oedd yn ymwneud yn benodol â'r Gymraeg. Mewn ymateb i'r pryderon am effaith cau'r ysgol ar iaith a diwylliant y pentref, mae'r Cyngor yn nodi nad oes llawer o ddisgyblion yn yr ysgol ac nad yw mwyafrif o blant y pentref yn mynychu'r ysgol. Dywedant nad oes unrhyw reswm pam na all yr ysgol newydd gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. Mae un sylw yn cyfeirio at ddemograffeg ieithyddol ward Mawr. Nid yw'r Cyngor wedi cynnig ymateb i'r sylw hwn.

Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg

2.46 Cyhoeddwyd dwy ddogfen oedd â'r teitl hwn Roedd y ddogfen gyntaf yn asesiad cyn-ymgyngori, a'r ail yn fersiwn diweddarach sy'n cynnwys adran ar y sylwadau a dderbyniwyd ac ymateb y Cyngor i'r sylwadau hynny.

2.47 Mae paragraffau 1 i 16 yn gosod y cefndir a'r rhesymeg dros y cynnig. Trafodir manteision y cynnig gan gynnwys gwella'r ddarpariaeth addysgol a'r ffaith bod angen cynllunio'r ddarpariaeth i ateb y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol. Mae hefyd yn trafod y ffaith bod Canllawiau Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Archwilio yn ei gwneud yn ofynnol ar yr Cyngor i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddsbarthu'r gost-ffeithiol a bod angen i awdurdodau lleol ystyried cau ysgolion cynradd bach. Trafodir ganlyniadau arolwg Estyn a'r rhwystrau a brofwyd wrth geisio penodi pennaeth i'r ysgol.

2.48 Mae'n trafod hefyd y ffaith bod niferoedd yr ysgol yn isel ac wedi bod yn gostwng yn gyson dros yn blynnyddoedd diwethaf heb arwydd y bydd cynnydd arwyddocaol yn y niferoedd yn y dyfodol.

2.49 Y ddau baragraff olaf yn unig felly sy'n ystyried yr effaith ar y Gymraeg yn benodol.

17. O ystyried y cefndir yma ac yn unol gyda'r buddion a restrir uchod credwn bydd y cynnig yn arwain at effaith bositif ar ddatblygiad yr iaith Gymraeg yn Abertawe.

18. O ganlyniad, mae'r Cyngor yn fodlon y bydd y ddarpariaeth iaith Gymraeg yn gwella yn Abertawe.

2.50 Gwelir o'r ail fersiwn bod y Cyngor wedi derbyn sylwadau ynglŷn â'r broses ymgynghori gan gynnwys honiad bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safonau 91-93 . Mae'r Cyngor wedi ymateb i'r sylwadau hynny gan gyfeirio at ei Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Mae'n nodi y byddai'r Cyngor, o gyflawni targedau'r Cynllun hwnnw yn cynyddu cyfleoedd i fwy o bobol ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Dywed hefyd:

"Yn ardal Mawr Abertawe, pe byddai'r cynnig hwn yn mynd rhagddo credwn fel rhan o'r dalgylch newydd byddai'r ward yn dod yn rhan o deulu ehangach yr ysgol ddynodedig ac felly'n gallu manteisio ar gyfleoedd pellach i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg".

2.51 Nid oedd y ddogfen wedi ystyried a oedd unrhyw elfennau negyddol i'r cynnig, nac wedi ceisio canfod beth fyddai effaith y penderfyniad ar faterion nad oeddynt yn ymwneud yn uniongyrchol ag addysg yr ardal, materion megis effaith symud yr ysgol o'r gymuned ar ddiwylliant yr ardal, cyswllt trigolion yr ardal â'r Gymraeg yn sgil hynny ayb. Nid oedd yn ymdrechu i ganfod a oedd y buddion yr honnir y byddai'n dod i addysg Gymraeg yn yr ardal gymaint nes ei fod yn gorbwysio unrhyw effeithiau andwyol eraill posibl.

Asesiad Effaith Cymunedol

2.52 Yn y ddogfen hon mae'r Cyngor yn gosod ystadegau'r ysgol ynghyd ag ystadegau'r ysgolion cynradd eraill yn yr ardal. Gwelir o'r ystadegau bod 35% o ddisgyblion YGG Felindre yn byw yn nalgylch yr ysgol. Gwelir hefyd bod 4.8% o blant dalgylch YGG Felindre yn mynychu'r ysgol. Gwelir o'r ddogfen bod y Cyngor wedi asesu effaith y cynnig ar y gymuned gan adnabod y byddai cau'r ysgol yn debygol o gael effaith ar y grŵp babanod a phlant bach Cymraeg sydd yn cwrdd yn yr ysgol yn wythnosol.

2.53 Ni ellir gweld o'r ddogfen bod unrhyw asesiad pellach wedi ei gynnal a oedd yn edrych ymhellach ar effaith y cynnig ar y Gymraeg o fewn y gymuned.

Asesiad Effaith Cydraddoldeb

2.54 Roedd y cynnig i gau'r ysgol wedi mynd drwy ymarferiad sgrinio cychwynnol ar gyfer perthnasedd i gydraddoldeb ac amrywiaeth ar 15 Mai 2018. Diweddarwyd yr ymarferiad sgrinio yn dilyn yr ymgynghoriad ar 29 Tachwedd 2018.

2.55 Roedd y ddogfen wedi adnabod bod y cynnig yn berthnasol i'r Gymraeg. Mae Is-adran 3: *Yr Effaith ar Nodweddion Gwarchodedig* wedi dynodi'r effaith ar y Gymraeg fel un 'Niwtral'. Mae hyn, o edrych ar y ddogfen, gyfystyr â dim effaith cadarnhaol na negyddol. Eir ymlaen i ddatgan:

Mae YGG Felindre yn ysgol gynradd Gymraeg ac er bod y cynnig yn un i gau ysgol gynradd Gymraeg mae'r cynnig yn rhan o'r Cynllun Strategol ehangach y Gymraeg mewn Addysg sy'n ceisio cynnydd nifer y lleoedd sydd ar gael yn ysgolion Cymraeg Abertawe. . .

Mae'r Cynllun Strategol ehangach y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor yn ceisio cynyddu'n sylweddol nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg yn Abertawe. O ganlyniad i gynigion i gyflawni ein targedau credwn y byddai hyn yn cynyddu cyfleoedd i fwy o bobl ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

2.56 Ceir crynodeb yn yr asesiad o'r adborth a gasglwyd fel rhan o'r gweithgareddau ymgysylltu a gynhaliwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Dywed bod pryder am yr effaith ar y Gymraeg. Mewn ymateb mae'r Cyngor yn rhesymu mai "dim ond nifer bach iawn o'r disgyblion presennol sydd o'r pentref ei hun, gyda'r rhan fwyaf yn lleoliadau o ddewis o rannau eraill o Abertawe." Dywed hefyd bod y Cyngor wedi derbyn ymatebion oedd yn tynnu sylw at y pwysau ar leoedd cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion eraill. Mewn ymateb i hynny mae'r Cyngor yn datgan bod y cynnig, ochr yn ochr â'r Cynllun Strategol mewn Addysg yn mynd i'r afael â'r twf parhaus yn y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

2.57 Mae'r asesiad yn gosod y cwestiwn 'Sut mae'r fenter yn cefnogi siaradwyr Cymraeg ac yn annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg?'. Mae ymateb y Cyngor yn trafod y ddarpariaeth addysgol a'r ffaith y byddai'r cyfleoedd addysgol a gynigir gan YGG Felindre yn cael eu darparu mewn ysgolion cynradd Cymraeg cyfagos. Mae eto'n ategu'r rhesymeg ynglŷn a bwriad y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Gwelir o'r ddogfen nad oes unrhyw gamau gweithredu wedi eu nodi ar gyfer ymateb i unrhyw fylchau a nodwyd. Dywed:

Ar ôl yr ymgynghoriad mae swyddogion yn parhau i gredu mai dyma'r penderfyniad cywir.

Tystiolaeth y Cyngor i'r ymchwiliad

2.58 Yn ei ymateb i'r hysbysiad, ategodd y Cyngor yr hyn a ddwedwyd yn y dogfennau y cyfeirir atynt uchod. Roedd hynny'n cynnwys ei farn y byddai'r cynnig arfaethedig i gau'r ysgol yn effeithio ar unrhyw gyfleoedd i bobol ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'n rhesymu mai defnydd cyfyngedig iawn a wneir o'r adeilad y tu allan i oriau'r ysgol. Ymddengys bod grŵp babanod a phlant bach Cymraeg yn cwrdd ar dir yr ysgol yn wythnosol, ond mae'r Cyngor yn cynnig y byddai modd defnyddio'r Neuadd Les yn y pentref ar gyfer y ddarpariaeth honno os penderfynir cau'r ysgol.

2.59 Mae'r Cyngor yn crynhoi ei resymeg dros y cynnig arfaethedig gan nodi

"O ystyried nad yw'r ysgol yn cael ei defnyddio'n aml gan y gymuned, nifer bach y disgyblion a'r ffaith bod nifer o'r disgyblion hynny'n dod o'r tu allan i ward Mawr, nid ydym o'r farn y byddai penderfyniad i gau'r ysgol yn cael effaith negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg."

Canfyddiadau

2.60 Yn dilyn ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd i mi gan yr achwynydd a'r Cyngor, mae'n ymddangos i mi fod y Cyngor wedi ystyried effaith y cynnig i gau YGG Felindre ar addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r Cyngor wedi cyfeirio sawl tro ac mewn sawl dogfen bod y cynnig yn rhan o'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg sydd yn cynllunio ar gyfer cynyddu nifer y disgyblion sydd yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sir.

2.61 Fodd bynnag, nid yw'r dystiolaeth a gefais fel rhan o'r ymchwiliad wedi fy narbwylllo bod yr un sylw a'r un ystyriaeth wedi ei roi i effaith y penderfyniad ar y Gymraeg mewn cyd-destun ehangach. Mae'n glir fod y Cyngor wedi cynnal asesiad effaith ar y Gymraeg cyn y broses ymgynghori, a'u bod wedi ailymweld â'r ddogfen honno i'w diwygio yn sgil ymgynghori ar y cynnig. Mae'n glir hefyd fod ystyriaeth wedi ei roi i'r effaith ar y Gymraeg mewn dogfennau eraill, megis yr asesiad effaith cydraddoldeb a'r asesiad effaith cymunedol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i mi ystyried i ba raddau yr oedd yr asesiadau hynny, gyda'u gilydd, yn ystyrllon ac yn ddigonol i sicrhau bod y Cyngor wedi gweithredu yn unol â gofynion ac amcanion y safonau llunio polisi.

2.62 Mae'r achwynydd yn honni bod gan yr ysgol rôl allweddol mwyn cynnal y Gymraeg yn yr ardal ac wrth gynnig cyfleoedd i bobol ddefnyddio'r Gymraeg. O edrych ar ofynion y safonau, mae dyletswydd ar y Cyngor i ystyried i ba raddau y mae'r cynnig yn gwarchod, yn hybu ac yn cyfoethogi treftadaeth a diwylliant yr ardal mewn perthynas â'r Gymraeg.

- 2.63 Yr wyf eisoes wedi trafod cynnwys y ddogfen Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg ym mharagraffau 2.33 i 2.37. Tynnais sylw at y ffaith mai dim ond 2 baragraff allan o'r 19 oedd yn trafod effaith ar y Gymraeg. Casglaf bod paragraffau 1 i 16 yn trafod y rhesymau a arweiniodd at y penderfyniad i gynnig cau YGG Felindre, yn hytrach na'u bod yn cynnig asesiad trylwyr o effaith y penderfyniad. Mae'r paragraffau clo yn casglu bod y Cyngor yn credu y byddai'r cynnig yn arwain at effaith gadarnhaol ar ddatblygu'r Gymraeg yn ardal Abertawe, er nad oes unrhyw dystiolaeth gadarn yn cael ei gyflwyno i gefnogi hynny.
- 2.64 Nid yw'r asesiad yn ystyried effaith posibl ar y Gymraeg o fewn y gymuned nac yn ystyried unrhyw effeithiau y tu hwnt i'r ddarpariaeth addysgol. Nid yw'r asesiad yn ystyried y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned a chyfraniad yr ysgol at hynny. Byddwn wedi disgwyl gweld data neu wybodaeth fyddai'n dystiolaeth bod y Cyngor wedi ystyried demograffeg ieithyddol yr ardal a'u bod wedi craffu a phwyso a mesur effaith cau'r ysgol ar arferion ieithyddol y bobol. Nid yw'n ddigonol bod y Cyngor yn casglu bod yr effaith yn "niwtral" heb hefyd gyflwyno dadleuon neu dystiolaeth i gefnogi hynny.
- 2.65 Nid oes ychwaith unrhyw dystiolaeth o'r ddogfen Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg, na'r dogfennau a'r asesiadau eraill a gynhaliwyd, fod y Cyngor wedi ystyried sut gellir llunio'r polisi neu'r cynnig fel ei bod yn cael effaith cadarnhaol neu llai andwyol ar y Gymraeg. Er bod y Cyngor wedi nodi bod y cynnig yn cael effaith "niwtral" ar y Gymraeg, mae gofynion safon 89 a 90 yn parhau'n berthnasol ac yn weithredol.
- 2.66 Wrth gyflwyno ei chwyn i mi, mae'r achwynydd wedi cyfeirio at y ffyrdd y mae'r ysgol yn cyfrannu at ffactorau cymunedol ehangach sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Eglura fod yr ysgol yn cyfrannu at gynnal yr iaith Gymraeg yn y pentref drwy roi'r cyfle i drigolion y pentref, disgyblion a'u rhieni ddod ynghyd i drefnu a chymryd rhan mewn gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 2.67 Mae'r enghreifftiau hynny'n cynnwys y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, eisteddfod y pentref, digwyddiad Cawl a Thwmpath dydd Gŵyl Dewi, cwrdd y cynhaeaf yn y capel, a'r ddrama Nadolig sy'n cael ei gynnal yn y pentref.
- 2.68 Eglura'r achwynydd hefyd fod aelodau'r gymuned wedi bod yn weithgar wrth wirfoddoli i godi arian i'r ysgol ar gyfer adnoddau megis bws mini, adeiladu gofod gwlyb a sych i'r disgyblion a datblygu gardd natur. Trefnwyd yn ogystal brosiectau gan aelodau'r gymuned ar gyfer galluogi plant y pentref i gystadlu yn eisteddfodau'r Urdd ac i gymryd rhan mewn prosiect dan nawdd y Cyngor Celfyddydau oedd yn ymwneud â hanes a thraddodiadau lleol a chenedlaethol.
- 2.69 Pe bai asesiad priodol o effaith y penderfyniad i gau'r ysgol ar y Gymraeg yn y gymuned wedi ei chynnal, fe fyddai'r Cyngor yn debygol o fod wedi dod yn ymwybodol o ddigwyddiadau megis rhain, ac wedi gallu gwneud asesiad o'r berthynas rhwng yr ysgol a'r gweithgareddau, a dadansoddi'r effaith y byddai'r cau'r ysgol yn debygol o'i gael ar allu'r gymuned i barhau i'w cynnal yn sgil cau'r ysgol, neu i gynnal gweithgareddau cyffelyb fyddai'n eu galluogi i barhau i ddefnyddio'r Gymraeg.
- 2.70 Yna, ar sail yr asesiad, fe fyddai wedi bod mewn sefyllfa i ystyried pa gamau y gallai eu cymryd yn sgil gwneud asesiad o'r fath. Mae'r safonau yn ei gwneud yn agored i'r Cyngor i barhau gyda'r penderfyniad doed a ddêl neu, gall gasglu bod yr effeithiau

andwyol mor sylweddol fel nad oes modd parhau gyda'r penderfyniad. Mae modd iddo hefyd barhau i wneud y penderfyniad mewn ffordd a fyddai'n cael effeithiau positif neu fwy positif ar y Gymraeg na'r hyn yr arfaethwyd yn y lle cyntaf, neu wneud y penderfyniad gan gyflwyno mesurau lleddfu gyda'r bwriad o atal neu leihau effaith andwyol y penderfyniad.

2.71 Y Cyngor ddylai ddod fyny â chynigion ar sut mae gwneud hynny. Heb asesiad, ymchwil a chanfyddiadau priodol, nid oes modd rhagweld beth allai cynigion o'r fath fod, ond fe allai'r enghreifftiau isod fod y mathau o bethau y gellir fod wedi eu hystyried mewn cymuned ble mae'r Gymraeg yn parhau i fod yn rhan o wead y gymdeithas:

- Ariannu mentrau neu weithgareddau dan arweiniad y fenter iaith
- Sicrhau fod cyfleusterau ac adnoddau'r ysgol yn parhau i fod ar gael i'r gymuned er mwyn, er enghraifft, fod yn fan cyfarfod neu'n ganolfan ar gyfer derbyn gwasanaethau lleol megis gwasanaeth llyfrgelloedd, mynediad i dechnoleg gwybodaeth ayb
- Arweiniad neu gefnogaeth y Cyngor i'r gymuned er mwyn eu galluogi i sefydlu mentrau cymdeithasol er budd y gymuned

2.72 Gan ystyried paragraff 2.66 nid yw'n bosibl i Gomisiynydd y Gymraeg wybod beth allasai penderfyniad y Cyngor fod wedi bod pe bai wedi gweithredu yn unol a safonau'r Gymraeg. Yr unig gasgliad y gellir dod iddo yw y gallasai'r penderfyniad fod wedi bod yn wahanol i'r un a wnaed.

2.73 Yn sgil yr uchod, yr wyf o'r farn nad oedd yr Asesiad Effaith ar y Gymraeg yn ddigonol i gyflawni gofynion safonau 88, 89 a 90. Casglaf felly nad yw'r Cyngor wedi gweithredu gofynion safonau 88, 89 a 90 wrth wneud ei benderfyniad polisi i gau YGG Felindre. Nid yw'r Cyngor wedi ystyried a nodi pa effeithiau y gall ei benderfyniad gael ar gyfleoedd i bersonau defnyddio'r Gymraeg nag i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Nid ydynt ychwaith wedi ystyried sut y gallant wneud y penderfyniad fel ei fod yn cael effeithiau mwy positif, neu llai andwyol, ar gyfleoedd i bersonau defnyddio'r Gymraeg, neu i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â safon 88, 89 a 90 a'i peidio

2.74 Fy nyfarniad yw bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safonau 88, 89 a 90 yn yr achos yma ar y sail nad yw wedi gallu dangos ei fod wedi ystyried yn llawn yr effeithiau y byddai'r penderfyniad i gau YGG Felindre yn eu cael ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gweithredu pellach

2.75 Mae adran 77 Mesur y Gymraeg yn caniatáu i mi weithredu ymhellach ble bu methiant.

- 2.76 Yn achos fy nyfarniad fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safonau 88, 89 a 90, byddaf yn gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant i gydymffurfio rhag parhau neu gael ei ailadrodd wrth ystyried effeithiau penderfyniadau polisi a wneir gan y Cyngor ar y Gymraeg yn y dyfodol.
- 2.77 Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safonau 88, 89 a 90 – Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

2. Rhaid i'r Cyngor gymryd camau i sicrhau y tynnir sylw'r Cabinet at ddyfarniad a chanfyddiadau'r ymchwiliad hwn ar y graddau yr ystyriwyd yn ddigonol effeithiau'r penderfyniad polisi ar y Gymraeg.
3. Rhaid i'r Cyngor fabwysiadu proses gadarn ar gyfer cynnal a chofnodi ystyriaethau ar unrhyw effeithiau y byddai penderfyniad polisi yn ei gael ar gyfleoedd i bersonau defnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i'r broses gynnwys canllaw clir ar gyfer swyddogion a chynghorwyr ynghylch sut y dylid cwblhau a chofnodi'r ystyriaethau perthnasol.
4. Rhaid i'r Cyngor fabwysiadu proses gadarn ar gyfer cynnal a chofnodi ystyriaethau ar sut y gellid llunio penderfyniad polisi fel ei fod yn cael effeithiau mwy positif ar gyfleoedd i bersonau defnyddio'r Gymraeg neu i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i'r broses gynnwys canllaw clir ar gyfer swyddogion a chynghorwyr ynghylch sut y dylid cwblhau a chofnodi'r ystyriaethau perthnasol.
5. Rhaid i'r Cyngor fabwysiadu proses gadarn ar gyfer cynnal a chofnodi ystyriaethau ar sut y gellid llunio penderfyniad polisi fel nad yw'n cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bersonau defnyddio'r Gymraeg neu i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i'r broses gynnwys canllaw clir ar gyfer swyddogion a chynghorwyr ynghylch sut y dylid cwblhau a chofnodi'r ystyriaethau perthnasol.
6. Rhaid i'r Cyngor lunio canllawiau (neu adolygu ei ganllawiau presennol) i staff sydd yn gyfrifol am gynnal asesiadau effaith o benderfyniadau polisi er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol yng nghyd-destun yr effaith posibl ar y Gymraeg.

Amserlen: O fewn 12 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safonau 88, 89 a 90 – Gofyniad i'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â safonau yn unol ag adran 77(3)(d) Mesur y Gymraeg

7. Rhaid i'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio â safonau 88, 89 a 90 trwy gyhoeddi'r adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei wefan, a chynnwys eitem ar yr ymchwiliad yn adran newyddion ei wefan.

Amserlen: O fewn 6 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safonau 88, 89 a 90 – Comisiynydd y Gymraeg yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â safonau yn unol ag adran 77(3)(c) Mesur y Gymraeg

8. Byddaf yn rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant y Cyngor i gydymffurfio â'r safonau drwy gymryd y camau canlynol:
 - cyhoeddi datganiad yn dweud fod y Cyngor wedi methu cydymffurfio â'r safonau
 - cyhoeddi'r adroddiad ar yr ymchwiliad ar fy ngwefan

Amserlen: O fewn 6 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Ystyried cydymffurfiaeth â safonau 91, 92 a 93

- 2.78 Mae'r achwynydd yn honni na wnaeth y Cyngor gynnal ymgynghoriad priodol ar y cynnig i gau YGG Felindre gan nad oedd y dogfennau ymgynghori yn ystyried nac yn ceisio barn ynghylch sut byddai'r penderfyniad yn effeithio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 2.79 Wrth ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth, cyflwynodd y Cyngor ddolen i'r dudalen ymgynghori ar ei wefan oedd yn cynnwys holl ddogfennau'r ymchwiliad. Yr wyf eisoes wedi trafod cynnwys y dogfennau ymgynghori yn yr adran uchod gan gyfeirio at unrhyw gyfeiriad yn y dogfennau hynny at y Gymraeg ac effeithiau posib y cynnig ar y Gymraeg.
- 2.80 Yn rhestr y dogfennau hefyd gwelwyd dwy ffurflen ymateb: un ffurflen ymateb gyffredinol ac un ar gyfer ymatebion gan ddisgyblion.
- 2.81 Roedd y ffurflen gyffredinol yn cynnwys un ar ddeg cwestiwn oedd yn ymwneud yn benodol â'r cynnig a ymgynghorwyd arno. Roedd y cwestiynau yn ceisio barn y cyhoedd ar y cynigion a osodwyd yn y ddogfen ymgynghori gan ofyn hefyd oes oedd unrhyw faterion neu bryderon nad oedd wedi eu cydnabod yn y ddogfen ymgynghori. Nid oedd y ffurflen ymateb yn gofyn cwestiynau penodol oedd yn ceisio barn am effaith ieithyddol y cynnig.
- 2.82 Roedd y ffurflen ymateb ar gyfer disgyblion yn cynnwys dau gwestiwn cyffredinol oedd yn ceisio barn ar y cynnig. Nid oedd y ffurflen yn cynnwys cwestiwn oedd yn ceisio barn am effaith posib y cynnig ar y Gymraeg.
- 2.83 Gofynnais i'r Cyngor i roi gwybod i mi sut aethpwyd ati i geisio barn ynghylch yr effeithiau y byddai'r newidiadau yn cael ar y Gymraeg. Yn ei ymateb, dywed y Cyngor nad yw wedi ceisio barn am hyn yn benodol. Mae'r Cyngor wedi egluro iddynt gynnal sesiynau ymgysylltu gyda rhanddeiliaid. Mae hefyd yn cyfeirio at y ffaith iddo ymgynghori yn llawn ar Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Nid wyf wedi ystyried yr ymgynghoriad hwnnw fel rhan o fy ymchwiliad gan fod y safonau'n ei gwneud yn ofynnol ar y Cyngor i gynnal asesiad ac i geisio barn ar gyfer pob penderfyniad polisi. Gan bod y Cyngor wedi cyhoeddi dau fersiwn o Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg fel rhan o'r dogfennau ymgynghori ar y cynnig hwn yn benodol, mae'n rhesymol casglu mai rhain yw'r asesiadau perthnasol i fy ymchwiliad.
- 2.84 Mae'r Cyngor yn cydnabod eu bod wedi derbyn sylwadau ar fethiant honedig i weithredu safonau 91, 92 a 93 fel rhan o'r ymgynghoriad. Mae'n datgan eu bod wedi ymateb i sylwadau yn adroddiad yr ymgynghoriad. O edrych ar adroddiad yr ymgynghoriad, ni ellir gweld cyfeiriad at bryderon am fethiant i gydymffurfio â'r safonau hyn, ond mae ymateb i'w weld yn ail fersiwn y ddogfen Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg. Yn yr ymateb hwnnw, mae'r Cyngor unwaith eto yn ategu'r ffaith bod y penderfyniad yn rhan o Gynllun Strategol ehangach y Cyngor. Dywed mai'r bwriad yw i gynyddu cyfleoedd i fwy o bobol ddefnyddio'r Gymraeg gan gyfeirio at darged Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg. Dywed hefyd:

Yn ardal Mawr Abertawe, pe byddai'r cynnig hwn yn mynd rhagddo credwn fel rhan o'r dalgylch newydd byddai'r ward yn dod yn rhan o deulu ehangach yr

ysgol ddynodedig ac felly'n gallu manteisio ar gyfleoedd pellach i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg.

- 2.85 Nid wyf o'r farn bod hyn yn ymateb i bryderon yr unigolyn fodd bynnag, gan nad yw'n ymdrin â gofynion y safonau.
- 2.86 Pwrpas Safonau 91. 92 a 93 yw sicrhau, pan fo cyrff yn ymgynghori a'r benderfyniadau polisi, bod y dogfennau ymgynghori yn ystyried ac yn ceisio barn gan bersonau ynghylch yr effeithiau posibl y bydd y penderfyniad yn eu cael ar y Gymraeg ac ar y cyfleoedd i'w defnyddio.
- 2.87 Mae'r safonau yn ei gwneud yn ofynnol ar y Cyngor i gynnwys cwestiynau penodol yn y ddogfen ymgynghori sy'n gofyn am ymateb iddynt. Byddai disgwyl i'r Cyngor roi sylw dyledus i unrhyw wybodaeth a gesglir yn ystod y broses hon wrth wneud y penderfyniad polisi, gan weithredu ar unrhyw ganlyniadau sy'n deillio o'r ymgynghoriad. Yn ogystal, byddai disgwyl i'r Cyngor defnyddio'r wybodaeth a gesglir yn unol â'r safonau hyn fel rhan o'r asesiad effaith (a gynhelir yn unol â safonau 88, 89 a 90).

Canfyddiadau

- 2.88 Mae gofynion y safonau hyn yn glir. Wrth gyhoeddi dogfennau ymgynghori, mae'n rhaid ceisio barn am yr effeithiau posib y bydd y penderfyniad polisi dan sylw yn ei gael ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg.
- 2.89 Er mwyn cydymffurfio â'r safonau, byddwn wedi disgwyl bod y dogfennau ymgynghori yn cynnwys adrannau penodol sydd yn annog personau i ystyried effaith y cynigion ar y Gymraeg ac i leisio barn ar sut y gellir llunio'r polisi fel ei fod yn cael effaith mwy cadarnhaol neu llai andwyol ar y Gymraeg. I gyflawni hynny, dylid cynnwys cwestiynau penodol sydd yn gofyn am farn personau ar hynny. Yn wir, byddwn yn disgwyl i sefydliadau sydd yn ddarostyngedig i'r safonau i ddatblygu cyfres o gwestiynau safonol i'w cynnwys mewn templedi neu ddogfennau ymgynghori. Ni lwyddwyd i wneud hyn yn yr achos hwn. Casglaf nad oedd yr un o'r dogfennau oedd yn rhan o'r ymgynghoriad yn gofyn cwestiynau ynghylch unrhyw ystyriaethau pellach ar ba effaith y byddai penderfyniad i agor ysgol yn ei gael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Nid oedd ychwaith yn ceisio barn ar sut i wneud y penderfyniad yn un ble byddai yn cael effeithiau mwy positif ar y cyfleoedd neu rhai llai andwyol.
- 2.90 Credaf y dylai'r Cyngor fod wedi bod yn fwy rhagweithiol wrth geisio barn ar effaith y cynnig ar y Gymraeg y tu hwnt i'r ddarpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg. Er bod y Cyngor wedi derbyn sylwadau am yr effaith posib ar y Gymraeg, nid oedd hynny o ganlyniad i unrhyw ymdrech benodol gan y Cyngor. Yr wyf o'r farn nad yw'n briodol rhoi'r baich ar y gynulleidfa darged i gofio ystyried effeithiau posib penderfyniadau polisi ar y Gymraeg. Mae dyletswydd ar y Cyngor i gymell a sicrhau bod y rhai yr ymgynghorir â hwy yn ystyried y Gymraeg, a'r dull arferol o wneud hynny, a'r mwyaf effeithiol yn fy marn i, yw drwy ofyn cwestiynau penodol yng nghorff y dogfennau ymgynghori neu'r ffurflenni ymateb.
- 2.91 Yn ei ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth mae'r Cyngor wedi cadarnhau nad oedd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys unrhyw gwestiynau penodol yn ymwneud ag effeithiau posib y cynnig ar y Gymraeg. O ganlyniad casglaf na wnaeth y Cyngor

sicrhau bod y ddogfen ymgynghori yn ceisio barn ynghylch effeithiau posib ar y Gymraeg yn unol â gofynion y safonau.

Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â safon 91, 92 a 93 a'i peidio

- 2.92 Fy nyfarniad yw bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safonau 91, 92 a 93 yn yr achos yma. Sail fy nyfarniad yw nad oedd y Cyngor wedi sicrhau bod y dogfennau ymgynghori ar y penderfyniad i gau YGG Felindre yn ystyried a cheisio barn ynghylch effeithiau'r penderfyniad ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gweithredu pellach

- 2.93 Mae adran 77 Mesur y Gymraeg yn caniatáu i mi weithredu ymhellach lle bu methiant.
- 2.94 Yn achos fy nyfarniad fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safonau 91, 92 a 93 byddaf yn gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant i gydymffurfio rhag parhau neu gael ei ailadrodd wrth iddo gyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi yn y dyfodol.
- 2.95 Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safonau 91, 92 a 93 - Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

9. Rhaid i'r Cyngor gymryd camau i sicrhau y tynnir sylw'r Cabinet at ddyfarniad a chanfyddiadau'r ymchwiliad hwn ar y graddau y ceisiwyd barn mewn modd priodol a digonol yng nghyswllt y Gymraeg fel rhan o benderfyniad wnaed ganddo i gau YGG Felindre.
10. Rhaid i'r Cyngor ddatblygu cyfres o gwestiynau safonol i'w ddefnyddio mewn dogfennau ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniadau polisi fel ei fod yn ceisio barn yn unol â gofynion safonau 91,92 a 93.
11. Rhaid i'r Cyngor adolygu a diwygio ei brosesau ar gyhoeddi dogfennau ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniadau polisi, er mwyn sicrhau fod dogfennau ymgynghori'r dyfodol yn cydymffurfio â safonau 91, 92 a 93.

Amserlen: O fewn 12 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safonau 91, 92 a 93 – Gofyniad i'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â safonau yn unol ag adran 77(3)(d) Mesur y Gymraeg

12. Rhaid i'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio â safonau 91, 92 a 93 trwy gyhoeddi'r adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei wefan, a chynnwys eitem ar yr ymchwiliad yn adran newyddion ei wefan.

Amserlen: O fewn 6 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

13. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 i 12.

Amserlen: O fewn 16 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safonau 91, 92 a 93 – Comisiynydd y Gymraeg yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â safonau yn unol ag adran 77(3)(c) Mesur y Gymraeg

14. Byddaf yn rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant y Cyngor i gydymffurfio â safonau 91, 92 a 93 drwy gymryd y camau canlynol:

- cyhoeddi datganiad yn dweud fod y Cyngor wedi methu cydymffurfio â'r safonau
- cyhoeddi'r adroddiad ar yr ymchwiliad ar fy ngwefan

Amserlen: O fewn 6 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Hysbysiad penderfynu

At: Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Rhif achos: CSG470
Dyddiad: 16 Ionawr, 2020

Dyfarniad

Yn sgil derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd, cynhaliais ymchwiliad dan adran 71 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 er mwyn dyfarnu a yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â rhai o safonau'r Gymraeg y mae dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

Mae'r safonau a oedd yn berthnasol i'r ymchwiliad fel a ganlyn:

Safon 48

Os byddwch yn llunio dogfen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.

Dyddiad gosod: 30 Mawrth 2016

Fy nyfarniad yw bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 48.

Sail fy nyfarniad yw bod y Cyngor wedi trin fersiwn Gymraeg copi caled y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gau YGG Felindre yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg y ffurflen.

Safon 52

Rhaid ichi sicrhau—

- (a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg,
- (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac
- (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan

Dyddiad gosod: 30 Mawrth 2016

Fy nyfarniad yw nad yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 52 yn yr achos hwn.

Sail fy nyfarniad yw nad oes tystiolaeth digamsyniol sy'n profi nad oedd copi Cymraeg o'r Asesiad Effaith Iaith Gymraeg wedi bod ar gael ar y wefan trwy gydol yr ymgynghoriad.

Safon 88

Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dyddiad gosod: 30 Mawrth 2016

Safon 89

Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dyddiad gosod: 30 Mawrth 2016

Safon 90

Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar —

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dyddiad gosod: 30 Mawrth 2016

Fy nyfarniad yw bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safonau 88, 89 a 90 yn yr achos yma.

Sail fy nyfarniad yw nad yw wedi gallu dangos ei fod wedi ystyried yn llawn yr effeithiau y byddai'r penderfyniad i gau YGG Felindre yn eu cael ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 91

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dyddiad Gosod: 30 Mawrth 2016

Safon 92

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dyddiad Gosod: 30 Mawrth 2016

Safon 93

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dyddiad gosod: 30 Mawrth 2016

Fy nyfarniad yw bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safonau 91, 92 a 93 yn yr achos yma.

Sail fy nyfarniad yw nad oedd y Cyngor wedi sicrhau bod y dogfennau ymgynghori ar y penderfyniad i gau YGG Felindre yn ystyried a cheisio barn ynghylch effeithiau'r

penderfyniad ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gweithredu pellach

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd.

Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 48 – Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor adolygu ei drefniadau ar gyfer llunio dogfennau sy'n gwahodd ymateb i ymgynghoriad, gan weithredu ar ei ganfyddiadau, ble mae angen, i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Amserlen: O fewn 8 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safonau 88, 89 a 90 – Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

2. Rhaid i'r Cyngor gymryd camau i sicrhau y tynnir sylw'r Cabinet at ddyfarniad a chanfyddiadau'r ymchwiliad hwn ar y graddau yr ystyriwyd yn ddigonol effeithiau'r penderfyniad polisi ar y Gymraeg.
3. Rhaid i'r Cyngor fabwysiadu proses gadarn ar gyfer cynnal a chofnodi ystyriaethau ar unrhyw effeithiau y byddai penderfyniad polisi yn ei gael ar gyfleoedd i bersonau defnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i'r broses gynnwys canllaw clir ar gyfer swyddogion a chynghorwyr ynghylch sut y dylid cwblhau a chofnodi'r ystyriaethau perthnasol.
4. Rhaid i'r Cyngor fabwysiadu proses gadarn ar gyfer cynnal a chofnodi ystyriaethau ar sut y gellid llunio penderfyniad polisi fel ei fod yn cael effeithiau mwy positif ar gyfleoedd i bersonau defnyddio'r Gymraeg neu i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i'r broses gynnwys canllaw clir ar gyfer swyddogion a chynghorwyr ynghylch sut y dylid cwblhau a chofnodi'r ystyriaethau perthnasol.
5. Rhaid i'r Cyngor fabwysiadu proses gadarn ar gyfer cynnal a chofnodi ystyriaethau ar sut y gellid llunio penderfyniad polisi fel nad yw'n cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bersonau defnyddio'r Gymraeg neu i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i'r broses gynnwys canllaw clir ar gyfer swyddogion a chynghorwyr ynghylch sut y dylid cwblhau a chofnodi'r ystyriaethau perthnasol.

6. Rhaid i'r Cyngor lunio canllawiau (neu adolygu ei ganllawiau presennol) i staff sydd yn gyfrifol am gynnal asesiadau effaith o benderfyniadau polisi er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol yng nghyd-destun yr effaith posibl ar y Gymraeg.

Amserlen: O fewn 12 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safonau 88, 89 a 90 – Gofyniad i'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â safonau yn unol ag adran 77(3)(d) Mesur y Gymraeg

7. Rhaid i'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio â safonau 88, 89 a 90 trwy gyhoeddi'r adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei wefan, a chynnwys eitem ar yr ymchwiliad yn adran newyddion ei wefan.

Amserlen: O fewn 6 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safonau 88, 89 a 90 – Comisiynydd y Gymraeg yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â safonau yn unol ag adran 77(3)(c) Mesur y Gymraeg

8. Byddaf yn rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant y Cyngor i gydymffurfio â'r safonau drwy gymryd y camau canlynol:
 - cyhoeddi datganiad yn dweud fod y Cyngor wedi methu cydymffurfio â'r safonau
 - cyhoeddi'r adroddiad ar yr ymchwiliad ar fy ngwefan

Amserlen: O fewn 6 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safonau 91, 92 a 93 - Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

9. Rhaid i'r Cyngor gymryd camau i sicrhau y tynnir sylw'r Cabinet at ddyfarniad a chanfyddiadau'r ymchwiliad hwn ar y graddau y ceisiwyd barn mewn modd priodol a digonol yng nghyswllt y Gymraeg fel rhan o benderfyniad wnaed ganddo i gau YGG Felindre.
10. Rhaid i'r Cyngor ddatblygu cyfres o gwestiynau safonol i'w ddefnyddio mewn dogfennau ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniadau polisi fel ei fod yn ceisio barn yn unol â gofynion safonau 91, 92 a 93.
11. Rhaid i'r Cyngor adolygu a diwygio ei brosesau ar gyhoeddi dogfennau ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniadau polisi, er mwyn sicrhau fod dogfennau ymgynghori'r dyfodol yn cydymffurfio â safonau 91, 92 a 93.

Amserlen: O fewn 12 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol Comisiynydd.

Safonau 91, 92 a 93 – Gofyniad i'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â safonau yn unol ag adran 77(3)(d) Mesur y Gymraeg

12. Rhaid i'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio â safonau 91,

92 a 93 trwy gyhoeddi'r adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei wefan, a chynnwys eitem ar yr ymchwiliad yn adran newyddion ei wefan.

Amserlen: O fewn 6 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

13. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 i 12.

Amserlen: O fewn 16 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safonau 91, 92 a 93 – Comisiynydd y Gymraeg yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â safonau yn unol ag adran 77(3)(c) Mesur y Gymraeg

14. Byddaf yn rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant y Cyngor i gydymffurfio â safonau 91, 92 a 93 drwy gymryd y camau canlynol:
- cyhoeddi datganiad yn dweud fod y Cyngor wedi methu cydymffurfio â'r safonau
 - cyhoeddi'r adroddiad ar yr ymchwiliad ar fy ngwefan

Amserlen: O fewn 6 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Hawl i apelio i Dribiwnlys y Gymraeg

Pan fo'r Comisiynydd wedi dyfarnu na fu methiant i gydymffurfio â safon, gall yr achwynydd apelio i Dribiwnlys y Gymraeg. Pan fo'r Comisiynydd wedi dyfarnu bod person wedi methu â chydymffurfio â safon, gall y person hwnnw apelio i Dribiwnlys y Gymraeg. Yn ogystal, pan fo'r Comisiynydd wedi penderfynu cymryd camau gorfodi mewn cysylltiad â methiant yn unol ag adran 79 Mesur y Gymraeg, gall Gyngor Dinas a Sir Abertawe apelio i Dribiwnlys y Gymraeg ar y sail fod y camau gorfodi'n afresymol neu'n anghymesur. Ceir rhagor o wybodaeth am y broses yn y daflen amgaeedig, ac ar wefan Tribiwnlys y Gymraeg.

Canlyniadau peidio â chydymffurfio â gofyniad yn yr hysbysiad penderfynu

Os yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad o fewn yr hysbysiad penderfynu hwn i weithredu ymhellach, caiff y Comisiynydd wneud cais i lys sirol am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Dinas a Sir Abertawe gydymffurfio.